y Dinesydd

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD
MEDI 1993 RHIF 196

# RADUR YW LLE GYMREICIAF CAERDYDD

Radur yw ardal Gymreiciaf Caerdydd yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn seiliedig ar ganlyniadau Cyfrifiad 1991. Yn y pentref hwnnw mae 11.8% o'r boblogaeth dros dair oed yn siarad Cymraeg.

O'i gymharu â 1990 gwelwyd cynnydd o 3% yn nifer y Cymry Cymraeg yn Radur, cynnydd sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu dros Gaerdydd i gyd ar y cyfan lle, erbyn hyn, mae bron iawn i 18,500 o siaradwyr Cymraeg yn byw, sef 6.4% o'r boblogaeth ddinesig o 287,200.

Er y cynnydd yn Radur, gwelwyd gostyngiad yn y canran o Gymry Cymraeg yn Sain Ffagan, o 12.6% ym 1981 i 9.0% ym 1991. Mae'r canrannau Cymraeg mwyaf wedi eu lleoli ym maestrefi gorllewin a chanol Caerdydd, gyda'r niferoedd sy'n arddel y Gymraeg ym maestrefi'r de a'r dwyrain yn cynrychioli llai na 5% o'r boblogaeth yno.

Mae'r cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y ddinas gyfan ymhlith y grŵp oedran 3 i 15 oed. Erbyn hyn mae 11.2% o blant Caerdydd yn siarad yr iaith, sef 5,200 allan o gyfanswm o 46,500.

Mae'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg ymhlith y grŵp oedran 16 i 44 oed. lle mae 6.2% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, sef 7,400 allan o gyfanswm o 119,247. Dengys y Cyfrifiad bod 4.5% o'r boblogaeth 45 i 65 oed yn siarad Cymraeg, cyfanswm o 2,520, a 4.7% o'r boblogaeth dros 65 oed, sef 2,115 o siaradwyr.

Cyhoeddwyd y newyddion am y niferoedd hyn ar yr un adeg ag a sicrhaoedd Cymdeithas yr Iaith gytundeb gyda grŵp siopau Dixons y byddant yn defnyddio'r Gymraeg mewn arwyddion yn eu siopau yn y ddinas. Mae'r Gymdeithas nawr yn bwriadu troi ei golygon at grŵp Mothercare, wedi eu harfogi â'r canlyniadau cadarnhaol hyn.

**Dylai'r ffigurau hefyd gadarnhau bod y Gymraeg yn iaith i'w harddel gan gyrff cyhoeddus a masnachol ar draws Caerdydd.**

# TRELÁI - ARDAL SY'N WYNEBU'R DYFODOL YN HYDERUS

Ddwy flynedd yn ôl roedd trigolion ardal Trelái a'r cyffiniau yn cael eu deffro ganol nos gan sŵn hofrenyddion yr heddlu yn leotran uwchben eu cartrefi a'u llifoleuadau yn troi'r nos yn ddydd noson ar ôl noson,

Ffrae rhwng dau siopwr lleol a gychwynnodd y terfysg a aeth yn rhemp ar strydoedd Trelái yr adeg honno. Stad ddifreintiedig ydyw a'i phobl wedi gweld a dioddef tlodi, diweithdra a chyni dros y blynyddoedd, a beth arall a allai rhywun ei ddisgwyl o dan y fath amgylchiadau o gofio helyntion Toxteth, Bryste ac ardaloedd eraill tebyg yn y gorffennol.

Rai misoedd yn ôl llofruddiwyd Les Reed, tad i dri o blant, a chlwyfo ei gyfaill Philip Tull, am geryddu gang o fechgyn ifainc oedd yn malurio arwyddion ffyrdd. Cafodd yr ardal gyfan sioc ddifrifol; roedd y fath anfadwaith yn anhygoel.

Dyna'r ochr negyddol i fel mae pethau yn Nhrelái. Ond mae yna ochr bositif i hanes yr ardal hefyd. Mae'r Parch Bob Morgan, gweinidog Eglwys Yr Atgyfodiad yn Grand Avenue, yn dyst o hynny. Mae Bob a'i deulu wedi byw yn yr ardal am dros ddeng mlynedd ar hugain - mae ei wraig, Elaine, yn gynghorydd lleol, ac yn Gymraeg ei hiaith yn hanu o Dyddewi.

'Mae Elaine yn ceisio dysgu Cymraeg i mi,'meddai Bob, 'iaith Gymraeg Tyddewi, wrth gwrs! Ond er mai ardal Saesneg ei hiaith yw Trelái, mae ysgol feithrin Gymraeg lewyrchus yma yn Neuadd yr Eglwys yn Grand Avenue. Mae tua chant o blant bach yr ardal yn ei mynychu, a heb os nac oni bai fe ddylai fod ysgol Gymraeg yma ar gyfer y plant hŷn. Fe ellid cynnal un yma yn hawdd.'

Yn ôl pob tebyg roedd dros 80% o rieni Trelái o blaid addysg Gymraeg i'w plant pan godwyd y cwestiwn adeg cynlluniau datganoli yn y 70au.


'Mae ysbryd pobol yr ardal yn wyneb anhawsterau mawr yn codi calon rhywun. Er enghraifft, er gwaethaf yr holl broblemau mae'r bobl leol rhwng pob dim wedi codi miloedd o bunnau i roi cymorth i deulu Les Reed,' ychwanegodd Bob.

Mae siopwr lleol, Davies Ironmongers, Wilson Road, hefyd yn cyfrannu £1.50 o bris pob tun o baent a werthir yn ei siop tuag at gronfa Les Reed.

Bu ymweliad Tywysoges Diana yn gymorth mawr i godi ysbryd y trigolion pan ddaeth hi i agor Canolfan Deulu Barnado yn Grand Avenue a'r parc chwarae yn Heol Tŷ-coch.

'Trueni bod cymaint o gyhoeddusrwydd negyddol wedi ei roi i'r parc chwarae,' meddai Bob. 'Dyw pethau ddim yn berffaith yn unman, ond mae'n rhaid i ni edrych i'r dyfodol yn hyderus, ac adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn.'

GWELER HEFYD ERTHYGL COLIN MURPHY AR DUDALEN 3.



Tîm Pêl Rwyd Ysgol Bro Eirwg. (gweler tud. 7)

# Wrth symud tŷ...

Am 30 mlynedd mae Hugh James wedi bod yn gweithredu ar ran Cymry Cymraeg yr ardal wrth iddynt symud tŷ gan ddarparu siaradwyr Cymraeg fel y bont yn gallu trafod materion drwy gyfrwng yr iaith.

# ...does dim rhaid newid iaith

Dyna paham y mae cymaint o Gymry Cymraeg yn dod atom ni ar gyfer eu gofynion cyfreithiol. Gwyddont y caent wasanaeth cyflym ac effeithiol. Felly pan feddyliwch am symud tŷ nesaf, beth am gysylltu â ni gyntaf.

**Cysylltwch â Ceri Preece neu**
**Sylvia Millward**
**Hugh James Jones & Jenkins**
**Tŷ Arlbee, Heol y Brodyr Llwydion**
**Caerdydd CF1 4QB. Ffôn 0222/224871**

Hugh James
Jones & Jenkins

# STRATAMATRIX

CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

DYLUNIO

HYSBYSEBU

TORIADAU PAPUR NEWYDD

Aberystwyth
0970 625552

Caerdydd
0222 231231

# Surrexit

## MAE'R NEGES YN GLIR

*DYLUNIO*
*CYHOEDDI*
*GOLYGU*
*HYSBYSEBU*
*MARCHNATA*
*CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS*

**0222 578772**

fax 0222 567639
PARC AFON BRIDGE ROAD YSTUM TAF CAERDYDD CF4 2JL

# PATAGONIA

Hydref 18 hyd Tachwedd 7fed 1993

Yn ymweld â

* Buenos Aires
* Trelew
* Esquel

PRIS Y DAITH
£1,749
[illegible]

Arweinyddion y daith - Dei a Mair Edwards

Am fanylion pellach cysylltwch â

Dei a Mair Edwards
Glanaber, Llanuwchllyn
Bala, Gwynedd LL23 7TY
Ffôn: 06784 - 276

neu

Cwmni Teithio Richards
10 Stryd Cowell,
Llanelli, Dyfed
Ffôn: 0554 - 754766

*Mae* ***COLIN MURPHY*** *yn un o fechgyn Trelái - yr ardal honno yng Nghaerdydd sydd wedi cael sylw mawr yn ystod y blynyddoedd, yn enwedig ers i Les Reed gael ei lofruddio ychydig fisoedd yn ôl. Yma mae'n sôn am y Drelái y mae e'n ei hadnabod.*

OES YNA GYMUNED GYMRAEG YN NHRELÁI?

"Fi? Dwi'n dod o Drelái."

"Ble?"

"Ely."

"Oo!"

Na, dyw'r enw Ely ddim yn dod ag argraff o baradwys i feddwl neb. Hynny yw, neb o'r tu allan i'r gymuned, ta beth. Ond nid fy ngwaith i yw canmol neu gondemnio yr ystad yma. Pawb a'i farn ei hun ydi hi bob tro.

Ond beth am y gymuned yma? Neu yn hytrach, beth am y gymuned Gymraeg yn Nhrelái? Neu yn hytrach fyth, a oes yna gymuned Gymraeg yn Nhrelái?

Wel oes, wrth gwrs, ond gan amlaf 'pobl ddwad' ydyn nhw. Pobl sydd wedi ymgartrefu yma o bedwar ban Cymru. Felly, pwy sydd ar ôl?

Wel, fi yn un! Bachgen o Drelái ydw i, wedi cael fy ngeni a'm magu yma. Bum i i ysgol gynradd Trelái bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ôl dan ddylanwad ein hen gyfaill adnabyddus, Gwilym Roberts. Ac yna i Ysgol Uwchradd Glynderw gyda'r athrawes â'r galon aur, Felmai Griffiths.

Rhywsut neu'i gilydd, dwi'n digwydd siarad Cymraeg yn rhugl bellach. Mae pobl yn cymryd yn ganiataol mai Cymro Cymraeg o'r crud ydw i, hynny ydi hyd nes i mi ddweud mai un o Drelái ydw i. Yna, rydw i'n sefyll yn ôl a disgwyl am y geiriau arferol, 'Wedi dysgu Cymraeg ydych chi?' Mae hyn yn digwydd bob tro heb eithriad! 'Ydi hyn yn peri dicter i mi? Nac ydi. Mae fy iaith yn ddigon graenus a gloyw i wrthsefyll smaldod fel hyn.

Ac mae llawer iawn o rai tebyg i mi yn byw yn Nhrelái. Felly ymhle ryden ni'n cuddio? Wn i ddim. Dim ond digwydd cwrdd o dro i'w gilydd mewn tafarn neu yn Safeways yr ydym. Does dim cymdeithas Gymraeg yn Nhrelái am wn i. Ond dwi'n cofio flynyddoedd yn ôl yn cael mynd i naill yr Highfields neu'r Culver gyda'r Cymry o Drelái i gael sgwrs fach a rhoi'r byd yn ei le. Ple rydech chi'n awr, fechgyn?

Cyfleusterau? Dim byd arbennig, ond mae'r llyfrgell wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar. Dwi'n cofio mynd yna ddeng mlynedd yn ôl a chael dewis rhwng Sali Mali neu esboniad ar fywyd y Rhufeiniaid gan y Parchedig hwn a hwn, a dyna i gyd.

Beth am y gobaith sydd yn Nhrelái? Mae dau gylch meithrin eisoes wedi eu sefydlu erbyn hyn, a phob bore dwi'n gweld bysiau llawn o blant bach yn gwibio eu ffordd i'r ysgolion Cymraeg. Da yw clywed y plant yn siarad yr iaith ar strydoedd Trelái.

Wrth gwrs, mae'r 'Cymry dwad' yn anfon eu plant i'r meithrinfeydd hyn, ond mae'r mwyafrif o'r plant yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Mae rhieni sawl un ohonynt yn gwneud ymdrech fawr i ddysgu'r iaith, ac dwi'n eu gweld yn awyddus iawn i gael sgwrs â fi yn Gymraeg. Efallai mai o'r Cymry di-Gymraeg mae'r Cymry Cymraeg y dyfodol yn mynd i ddod. Dyna'r gobaith, a phwy a ŵyr, onid e. Dyfal donc...ac ati.

Ond a oes yna wir obaith? Wel, dyna fi. Dwi wedi cael swydd mewn lle Cymraeg a Chymreig, a rydw i wedi ennill croesair Y DINESYDD unwaith, a phwy a ŵyr na wnaf i hynny rhywbryd eto. Dal i fyw mewn gobaith sydd raid i ni.

---

Annwyl Bawb

Rwyf ar hyn o bryd yn paratoi LLYFR PEN-BLWYDD Y SÊR, i'w gyhoeddi erbyn y Nadolig. Mae'r llyfr ar lun dyddiadur ac yn cynnwys dyddiad pen-blwydd pedwar o bobl adnabyddus ar gyfer bob diwrnod o'r flwyddyn. Yn ddelfrydol. wrth gwrs, hoffwn i bob un o'r pedwar fod yn Gymry enwog (yn fyw neu'n farw), ond rwyf wedi bodloni anelu am ddau Gymro/dwy Gymraes, ac wedi darganfod fod hynny'n eitha tasg ynddo'i hun gan nad oes unrhyw ddogfen ar gael sy'n cynnwys y fath wybodaeth am Gymry - mae digon o wybodaeth am Saeson.

Hoffwn, felly, ofyn a fyddai darllenwyr Y DINESYDD yn ymateb trwy ddanfon ataf dyddiad geni (y dyddiad a'r flwyddyn) unrhyw enwogion y gwyddant amdanynt. Rwy'n awyddus hefyd i gael dyddiadau geni llenorion, beirdd, cymeriadau hanesyddol ayb sydd wedi marw ers tro. Ac i'r enwogion hynny sy'n darllen Y DINESYDD (yn actorion, llenorion, beirdd, sêr chwaraeon, gwleidyddion ayb - unrhyw rai sy'n adnabyddus yng Nghymru), peidiwch â bod yn swil - danfonwch eich dyddiad pen-blwydd ataf! Dim ond chi fydd i'w feio os na chewch eich cynnwys yn y llyfr. Diolch yn fawr iawn.

EIRY PALFREY
10 RIVER VIEW COURT
LLANDAF, CAERDYDD CF5 2YQ

---

**ANRHYDEDD** - Mae S4C wedi comisiynu cerflun efydd o un o'u sylfaenwyr, Mrs Mair Owen, ar gyfer ei ganolfan yn Llanisien. Bydd y cerflun, gan Jonah Jones, yn cael ei roi wrth ochr cerfluniau tri arall o sylfaenwr S4C, Syr Goronwy Daniel, Mr John Howard Davies a Mr Owen Edwards.

Yn Ysbyty Llandochau bu farw Agnes Eluned Thomas, Flat 1, Four Elms Court, Ffordd Casnewydd.

Cydymdeimlwn â Ruth Walters, Llandaf, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd Jack, gynt o Mabws Fawr, Mathri, Sir Benfro.

Cydymdeimlwn â Geraint Stanley Jones, Cyfarwyddwr S4C, ar farwolaeth ei fam yn ddiweddar.

# GAIR I'N DARLLENWYR

Mae'n siŵr bod llawer ohonnoch yn gofyn lle mae rhifyn mis Medi o'r **DINESYDD**. Wel, dyma'r rhifyn hwn allan o'r diwedd, a hynny bythefnos yn hwyr. Yn sicr fe gafwyd rhai trafferthion rhwng streic y postmyn, gwyliau ac yn y blaen. Ond yr hyn sy'n bwysig yw'r ffaith fod pawb oedd wedi addo rhoi cymorth i anfon erthyglau a newyddion wedi gwneud hynny yn ôl eu haddewid, ac mae'n rhaid diolch yn fawr iawn i chi i gyd am wneud hynny.

Mae'n amlwg bod cyhoeddi enw a chyfeiriad ysgrifennydd y Bwrdd Golygyddol o gymorth mawr, a gobeithiwn y byddwch, bob un o'n darllenwyr, yn parhau i anfon pytiau o newyddion, erthyglau, llythyrau ac unrhyw beth arall fyddech chi'n hoffi ei weld yn **Y DINESYDD.** Wedi'r cyfan eich papur bro chi yw'r **DINESYDD**, ac mi wyddoch yn iawn lle i anfon gwybodaeth o unrhyw fath erbyn hyn. Felly, gyda'ch cymorth chi a'r rhai sydd eisoes yn cynnal **Y DINESYDD**, ymlaen â ni i'r dyfodol yn hyderus.

---


## Y DINESYDD

BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD (0222) 598243.

*Cyfraddau hysbysebion sylw (mono): tudalen lawn £350;*
*hanner tudalen £180;*
*chwarter tudalen £100;*
*wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7.*
*Cyfradd hysbysebion cyhoeddi £15.*


---


Dylid anfon unrhyw ddeunydd ar gyfer rhifyn Hydref o'r Dinesydd erbyn 1 Hydref at Ysgrifennydd y Bwrdd Golygyddol:

Catrin Lloyd Rowlands, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE.

Cyhoeddir Y Dinesydd gan Bwyllgor Y Dinesydd, gyda chefnogaeth ariannol Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig.



CHARLES Y SAER

SAER COED
CYNNAL A CHADW
MÂN WAITH ADEILADU

Charles Roberts
129 Ffordd Parc Ninian
Glanyrafon, Caerdydd CF1 8HX
(0222) 342239

## YR EGLWYS NEWYDD

Llongyfarchiadau i Menna Richards ar gael ei phenodi'n Bennaeth Rhaglenni HTV.

Bu farw Mrs Olwen Davies. Cydymdeimlwn yn fawr â'i gŵr, y Parch. H.R. Davies, eu mab Ceri, a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau i Nicky Robinson, sydd newydd orffen ei flwyddyn olaf yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, ar gael ei ddewis i chwarae dros dîm criced ieuenctid De Morgannwg am yr ail flwyddyn yn olynol.

Cynhaliwyd Ffair Haf lwyddiannus yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ar ddiwedd y tymor diwethaf. 'America' oedd thema'r ffair, ac ymhlith y gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r thema, cafwyd cystadleuaeth wisg ffansi. Enillwyr y gystadleuaeth oedd Tomos Nolan a Mati Angharad yn Adran Iau. Diolch i Bwyllgor Cymdeithas Rhieini ac Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac am eu holl waith da a diwyd ar hyd y flwyddyn.

Llongyfarchiadau i Sian Jobbins ar gael ei phenodi'n Warden Canolfan yr Urdd a Threfnydd yr Urdd yn Ne Morgannwg.

Mae'n bur hysbys bellach fod modd i chi drefnu eich gwyliau yn Gymraeg yn Capital Travel, 11 Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd. Os gwyddoch am leoedd eraill yn yr Eglwys Newydd lle y gellwch siopa neu dderbyn gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch wybod fel y gallwn gyhoeddi'r wybodaeth yn y golofn hon.

## LLANDAF

Bob haf y mae trigolion Y Llain yn Llandaf yn dioddef gan bla o wylanod sy'n nythu a magu cywion ar douau'r tai. Mae'r gwylanod yn cyhwfan ac yn udo, ac yn wir yn bygwth ymosod ar bobol sy'n hamddena ger yr Eglwys Gadeiriol.

Bu mwy o sŵn nag arfer eleni, gan fod cyw bach cloff iawn gan un nyth - a'r teulu'n ei warchod drwy nadu o fore gwyn tan nos tra yr herciai'r creadur truenus i chwilio am damiad. A'r bore gwyn - yn fora bach iawn, o tua pedwar ymlaen. Diddorol oedd sylwi arnynt yn gwarchod y cyw, yn enwedig rhag y piod barus a niferus sydd hefyd yn hoffi cyhwfan ar y Llain. Ond dyna ni - mae pawb isio byw!

**Croeso** i Cen Williams sydd erbyn hyn wedi mudo ac yn un o drigolion Llandaf bellach. Ond gan nad yw byth adref, mae'n siŵr y bydd hi yr un mor anodd cael gafael arno!

**Priodas** dda i Val Exon o Howells Crescent, a Steve Peel sy'n hanu'n wreiddiol o Swydd Efrog. Wedi mis mêl yn Kenya, bydd y ddau yn cartrefu yn Howells Crescent.

***DAETH LLAWENYDD I YSGOL GLANTAF WRTH GLYWED AM LWYDDIANT CYN-DDISGYBLION YM MHRIFYSGOLION A CHOLEGAU PRYDAIN. GRADDIODD Y CANLYNOL GYDAG ANRHYDEDD UCHEL. DYMUNWN YN DDA IDDYNT A'U LLONGYFARCH YN GYNNES.***

Sioned Guy, Huw Curig Thomas, Melanie Corpe, Alun Jenkins, Sara Ogwen, Catrin Edwards, Iwan Powys Jones, Ceri Tudno Jones, Graham Davies, Rachel Evans, Rebecca Evans, Martin Coaley, Iestyn Thomas, Martin Griffiths, Deian Humphreys, Lois Davies, Lisa Pugh, Gwenlluan Evans, Huw Lloyd, Rebecca Llwyd Evans, Elen Gwyndaf, Aaron Evans, Angharad James, Eleri Coslett, Guto Thomas, Owain Stickler, Nia Daniel, Lowri Mannings, Anwen Mannings, Owain Saer, Karen Thomas.

## DEIAN HUMPHREYS

Enillydd Gwobr Arweinydd Laureate Cerddorfa Ieuenctid De Morgannwg am 1993 yw Deian Humphreys, cyn-ddisgybl Ysgol Glantaf.

Cyflwynodd Alun Francis, prif arweinydd Cerddorfa Symffoni Berlin, y wobr i Deian mewn cyngerdd yn ddiweddar yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Deian fydd yn arwain Cerddorfa Ieuenctid y Sir fis Ionawr nesaf. Dymunwn yn dda iddo ar drothwy gyrfa gerddorol.

Da gweld 23 o ddisgyblion Glantaf yn aelodau o'r gerddorfa dalentog hon.

## LLONGYFARCHIADAU

i Rhodri a Frances Phillips, Highgate, Llundain, ar enedigaeth mab, Meurig Rhodri, brawd i Rhiannon ac ŵyr i Vincent a Margaret Phillips, Parc y Rhath.

i Alun a Helen Higham, athrawon yn ysgolion Melin Gruffydd a Bro Eirwg, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Osian Gruffudd.

i'r Aelod Seneddol, Jon Owen Jones, a'i wraig Allison, ar enedigaeth eu hail fab, Rhys.

i Catrin Tomos, Treganna, sy'n athrawes yng Ngwaelod-y-garth, ar ei dyweddiad ag Ian Alsop.

## Y BARRI

Yn ddiweddar anfonodd Merched y Wawr siec am £100 i Gronfa Nantgwrtheyrn, sef elw bore coffi fu yng nghartref Alcwyn a Rhoswen Evans.

Dr Gwenllian Aubrey oedd yn agor tymor newydd y gangen ar nos Fawrth, Medi 14 yn Ysgol Gymraeg Pant Curig.

## DINAS POWYS A PHENARTH

Ar nos Sadwrn 10 Gorffennaf daeth nifer fawr i'r 'Bar a chyw' yn Neuadd y Pentref. Trefnwyd y noson gan Gymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch i godi arian i elusen LATCH, a Rhodri Jones oedd yn gyfrifol am yr adloniant. Diolch i bawb a weithiodd ac a gefnogodd y noson - mae £150 yn mynd i LATCH.

Longyfarchiadau i Rhodri a Chris am gael eu dewis i fynd i America i ddysgu bobol Baltimore Gymraeg a Dawnsio Gwerin.

Y mae pwyllgor y Gymdeithas, dan gadeiryddiaeth Iris Cobbe, wedi trefnu rhaglen amrywiol a diddorol am y gaeaf. Dyma'r dyddiadau sydd i'w cofio a'u rhoi yn y dyddiadur:

Medi 24 - Gwibdaith i Llancaiach Fawr; Hydref 4 - Swper Cynhaeaf gyda'r Parch. Ddr T.J. Davies; Tachwedd 1 - Bae Caerdydd gyda Mr John Skinner; Rhagfyr 13 - Noson Garolau; Ionawr 3 1994 - Noson o Hwyl a Sbri; Chwefror 7 - Hawl i Holi; Mawrth 7 - Cinio Gŵyl Ddewi; Ebrill 11 - Noson gyda Chymdeithas Gymraeg Rhiwbeina; Mai 8 - Gwibdaith yn Y Fro yng nghwmni Mr John Williams, Y Barri.

Yn Neuadd Eglwys Sant Pedr, Dinas Powys mae'r Gymdeithas yn cwrdd. Am fwy o wybodaeth cysylltwych â'r Ysgrifenyddes, Moyra Owen, ar 701877.

Gyda dwyster y cydymdeimlwn â Mrs Evelyn James yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Jimmy - un a fu'n gefnogol iawn i'r Gymdeithas yn Ninas Powys.

Llongyfarchiadau i Hazel ac Ellis Griffiths, Cosmeston Drive, Penarth ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

Llongyfarchiadau i Nia Daniel sydd wedi graddio ym Mhrifysgol Caerlŷr, a Richard Davies sydd wedi graddio ym Mhrifysgol Morgannwg.

Mae Carwyn Jones wedi cael lle yng Ngholeg Celf a Chrefft Caerfyrddin i astudio ffotograffiaeth.

Llongyfarchiadau i Rhydian Lloyd, Penarth sydd wedi ymuno â staff Ysgol Y Wern.

Y mae aelodau Bethel, Penarth yn ymfalchio mai un o'r aelodau, sef Jeremy Williams, oedd yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Canwr Y Byd. Rydym yn ei longyfarch yn fawr am chwifio'r faner dros Gymru a gwneud mor dda.


### TŶ AR OSOD

Tŷ teras wedi ei ddodrefnu i'w osod yn ardal Treganna. Pedair neu bump ystafell wely (dibynnu ar y gofynion), gwres canolog a chegin newydd. Am ragor o fanylion ffoniwch Caerdydd 566158 ar ôl chwech o'r gloch fin nos.

# LLYS A LLAN

Colofn newydd a fydd yn crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r cyffiniau

## ENWAU LLEOEDD

Pethau cyfareddol yw enwau lleoedd. Nid labeli cyfleus yn unig mohonynt. Maent yn fynegbyst sy'n dweud wrthym lawer am y wlad o'n cwmpas a'r bobl a fu'n byw ynddi dros y canrifoedd. Ond rhaid cymryd gofal mawr, oherwydd peth rhwydd iawn yw camddarllen y mynegbyst arbennig hyn!

Coffa da am sawl yn ardal Nantgarw yn y ganrif ddiwethaf nad oedd yn sylweddoli y gall yr enw 'nant' fod yn wrywaidd yn ogystal â benywaidd. Iddynt hwy, nid cyfeirio at 'nant arw' yr oedd enw'r pentref. Yn hytrach, 'Nant y Carw Coch' ydoedd; a thyfodd traddodiad mai yno y lladdwyd y carw coch olaf yng Nghymru!

Cyn mentro esbonio llawer o'r enwau lleoedd a welwn o'n cwmpas, mae gofyn gwybodaeth fanwl o iaith ac o hanes ac arferion ardal, a llawer o ymchwil mewn llyfrau a dogfennau. A hyd yn oed wedyn rhaid cofio sylw sychlyd, direidus Syr John Morris-Jones pan ofynnodd Syr Ifor Williams iddo ryw dro am ei farn ar ystyr enw lle arbennig: 'Fydd 'na neb ond ffyliaid yn treio esbonio enwau lleoedd!'

Cymerwch un enghraifft fach o'r problemau a all wynebu'r esbonwyr. Mae'n siŵr y bydd llawer ohonoch wedi mynd heibio i westy'r Conrah, ychydig i'r de o Aberystwyth, a rhai ohonoch wedi aros yno o bosibl. Gellir dychmygu gwybodusion ymhen canrif neu ddwy yn cynnig pob math o ddamcaniaethau am darddiad enw'r gwesty, ond y cwbl yn ofer oni ddigwydd iddynt daro ar y ffaith mai llythrennau cyntaf enwau un o gyn-berchenogion y gwesty, R.A.Hughes, wedi'u rhagflaenu gan ran gyntaf enw ei wraig Constance, yw'r enw!

Ond diolch fod rhai dros y blynyddoedd wedi mentro i'r maes. Rhai o'r amycaf, wrth gwrs, yw'r triawd a ddilynodd John Morris-Jones yng Nghadair y Gymraeg yn Mangor - Ifor Williams, Melville Richards a Bedwyr Lewis Jones. Ac y mae'n dda dweud fod un o'n hawdurdodau pennaf ar enwau lleoedd Cymru, sef yr Athro Gwynedd O. Pierce, yn byw yn nalgylch **Y DINESYDD** ac wedi ymroi yn ddiwyd dros y blynyddoedd i oleuo ystyr llawer o'r enwau lleoedd sydd o'n cwmpas yma yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae'n siŵr y dychwelwn droeon yn y golofn hon at enwau lleoedd, a dyna a wnawn y tro nesaf, os byw ac iach.

**E.WYN JAMES**

# MINNY STREET

* Bu John Clement o'r Mynydd Bychan yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Pentwyn yn ddiweddar. Da gweld ei fod yn gwella yn foddhaol, ac edrychwn ymlaen at ei weld yn ôl yn y capel cyn hir.

* Yn y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn Llanelwedd eleni cafodd Gwynfor Owen o'r Rhâth ddim llai na deg o wobrau mewn gwahanol gystadleuthau am wneud ffyn. Cyn ymddeol roedd Gwynfor yn gweithio i'r Comisiwn Coedwigaeth. Longyfarchiadau ar ei lwyddiant ysgubol.

* Ar y 27 Awst yn Eglwys y Plwyf Llanwrtyd priodwyd Dr Sybil Barr a Dr Tim Kinnaird. Mae'r ddau yn dal i fyw yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, a dymunwn yn dda iddynt ar eu priodas. Yn Nhreganna mae Sybil yn byw, ac mae hi'n ferch i'r Dr a Mrs Ben Barr, Rhiwbeina.

* Cyn hir bydd rhaglen y gymdeithas ar gael a bydd copïau yn barod gan yr ysgrifenyddes, Dr Bethan Jones. Mynnwch gopi a dewch atom yn gyson yn ystod y tymor.

# YN EU GYNNAU GWYNION....

Cafodd Dr Denzil Davies, Y Barri a'r Parchedig W.I.Cynwil Williams, gweinidog Y Crwys, eu derbyn yn aelodau newydd i Orsedd Y Beirdd yn Llanelwedd. Roedd y ddau yn cael eu derbyn i Urdd Derwydd Er Anhrydedd.

**Dr Denzil Davies** yn enedigol o Fryn Iwan, bu'n feddyg am flynyddoedd yn Y Barri ac yn gefnogol a gweithgar ym mhob cylch o fywyd Cymreig y dre a'r ardal. Mae'n eisteddfodwr selog a chyfrannwr ar bynciau meddygol ar y radio a'r teledu. Mae'n ddarpar lywydd Cymdeithas Feddygol Cymru, ac yn aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Cyffredinol Meddygol Cymru.

**Parchedig Cynwil Williams** - brodor o fro'r emynwyr ac fe'i maged yng Nhgwrt-y-Cadno. Daeth yn un o bregethwyr amlycaf Cymru, a galw mawr am ei wasanaeth. Meddyliwr praff, darllenwr eang, a diwinydd dwfn ei ddysg. Cyfrannodd yn helaeth i lenyddiaeth Cymru mewn erthyglau i gofnodolion a chylchgronau. Mae'n awdur esboniad ar Eseciel a thraddododd y Ddarlith Davies yn y Gymanfa Gyffredinol yn Llangeitho ar 'Pantycelyn ar y blaen'.

# UNDEB BEDYDDWYR CYMRU Y TABERNACL, CAERDYDD 1993

Diogelu'r ddwy elfen o'n hetifeddiaeth - Credo a Chenedl - yw'r her a osodwyd i'r Gymru gyfoes yn Undeb y Bedyddwyr, Gorffennaf 18 - 22, eleni gan ei Lywydd newydd, y Barnwr Dewi Watkin Powell. Thema addas iawn ym 1993 wrth ddathlu can mlwyddiant geni Lewis Valentine a Saunders Lewis ac un arwyddocaol i'r Undeb a gynhaliwyd yn y De-ddwyrain - ardal sy wedi newid a datblygu'n gynt nag unrhyw ardal arall yn ystod ein hoes ni ac ardal sy ag angen mawr i gynnal a chadw ei chredo a'i chenedlaetholdeb.

Traddodwyd darlith goffa Lewis Valentine gan y Parchg Cynwil Williams. Byrdwn ei ddarlith wefreiddiol oedd cymhlethdodau crefyddol a gwleidyddol y Dwyrain Canol ddoe a heddiw.

Trafodwyd problemau Cymoedd y De mewn fforwm agored gyda Mrs Nora Morgan, sy'n byw a gweithio ar ystad Penrhys. Dyma enghraifft o sut i wynebu her y Gymru ddifreintiedig drwy gyd-weithio llwyddiannus rhwng yr eglwysi i ddod â hunan-barch a gobaith i un o ardaloedd tlotaf Ewrop.

Yn yr un fforwm cafwyd trafodaeth fywiog ar y problemau sy'n wynebu'r Eglwys yn y byd seciwlar, megis y cyfryngau torfol, hysbysebu, diflaniad cymdeithasau clos gweldig, ac anwybodaeth plant ac oedolion am y Neges Gristnogol.

Roedd Sioe Gerdd ysgolion Sul yr ardal - Yr Egin Gwyrdd - fel chwa o awyr iach. Ei neges oedd y modd y cyfrannodd cymdeithas ddiwydiannol y cymoedd i'n hetifeddiaeth ysbrydol ac ieithyddol yn y gorffennol.

Ond os ydym i gynnal a magu'r egin gwyrdd a dod â gobaith i'r difreintiedig mae'n rhaid i ni roi cyfle i Dduw i uniaethu ei hun â'r bobl yma sydd wir ei angen. Dyna oedd neges y Parchg Tecwyn Ifan yn ei bregeth ar y diwrnod olaf.

Yn ystod y trafodaethau daeth yn amlwg ein bod fel aelodau o'r Eglwys Gristnogol yn cyfaddef nad yw'r Neges wedi newid dim ond mai'r her i ni fel aelodau yw cyrraedd cynulleidfa ehangach a newid ein dulliau cenhadu.

**LOWRI KEMP**

COFIWCH DINESYDD 2000 TUD. 8

# DYSGU CYMRAEG

dan ofal Mair ac Alun Treharne.


Ymhlith y llyfrau newydd a oedd ar werth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelwedd eleni roedd llyfryn hwylus iawn gan D. Gerait Lewis, **Y TREIGLADUR: A Check-list of Welsh Mutations.** Dyma ni'n penderfynu felly rhoi ychydig sylw y mis hwn i'r treigladau - un o'r pethau sy'n gwneud yr iaith Gymraeg yn wahanol, ond sydd hefyd yn rhoi pen tost i bob dysgwr yn ei dro.

Cytunodd S.H.Martin, un sydd wedi meistroli'r iaith yn wych, i adolygu'r llyfryn newydd o safbwynt y dysgwr. Yna mae'r adran TREIGLO NEU BEIDIO? yn rhoi cyfle i chi adolygu rhai o'r rheolau treiglo. Mae'r atebion ar dudalen 7. Os cewch broblem neu os ydych yn ansicr ynglŷn â'r rheolau, beth am brynu copi o'r **TREIGLADUR?**

***TREIGLO NEU BEIDIO?***

Rhowch y gair rhwng cromfachau yn y frawddeg a'i dreiglo os oes angen:

1 Mae Mari'n ferch.......... ........... (digon / dymunol)
2 Bydd y rhaglen yn cael ei.......... am.............o'r gloch. (darlledu / deg)
3 Cofia..........wrthi'n syth. (dweud)
4 ...........! Rydych chi'n chwarae â ........(plant / tân)
5 Wyt ti'n fy......i? (credu)
6 Gwyn yw'r ail.......o'r dde yn y rhes........(bachgen / cefn)
7 Mae ugain..........o.........dysgu ganddi. (blynedd / profiad)
8 Ei brif......... yw'r..........(diddordeb / gardd)
9 Bydd y dref yn rhy........os awn ni.........Sadwrn. (llawn / dydd)
10 Sgipiwch neu.........mewn cylch, ond peidiwch â........(cerddwch / rhedeg)



# Y TREIGLADUR:

A Check-list of Welsh Mutations gan D.Geraint Lewis; Gwasg Gomer, 66 tud. £4.95

Beth sy'n codi dychryn ar ddysgwyr newydd yr iaith Gymraeg yn fwy na dim? Dyma'r un peth, yn fy mhrofiad i, sy'n achosi i luoedd o bobl ddi-Gymraeg feddwl am yr iaith fel un sy'n rhy anodd iddyn nhw hyd yn oed ddechrau'i dysgu. Wrth reswm, rydw i'n cyfeirio at y treigladau. Felly, rydw i'n credu y dylen ni roi croeso cynnes i'r llyfryn hwn a fydd ar gael i ddysgwyr o hyn ymlaen.

Dylen ni ddweud diolch i'r awdur hefyd am y math o lyfryn y mae e wedi ei ysgrifennu. Mae e'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr wrth ochr, yn hawdd ei ddeall, ac wedi ei rannu yn dair prif ran.

Y rhan gyntaf - a'r rhan a fydd fwyaf defnyddiol i'r mwyafrif o ddysgwyr - yw rhestr o eiriau sy'n achosi treiglad ac, wrth reswm, y math o dreiglad y maen nhw'n ei achosi. Yr ail ran yw eglurhad syml o rai rheolau ynglŷn â threiglo. Wrth esbonio mae angen i'r awdur ddefnyddio nifer o dermau gramadegol, felly mae'r drydedd ran yn egluro'r rhannau ymadrodd sydd wedi cael eu defnyddio.

Ond peidiwch â phoeni! Nid cyfrol ar gyfer arbenigwyr yw hon ond, yng ngeiriau'r awdur, un sy'n dangos mai 'rhywbeth sy'n perthyn i Gymraeg bob dydd a'r iaith fyw yw'r treigladau, nid rhywbeth academaidd, marw', ac un sy'n ceisio 'canolbwyntio ar y cyfoes... a gwneud hynny ar gyfer cynulleidfa nad ydyw erbyn hyn, efallai, mor gyfarwydd â'r termau gramadegol traddodiadol ac â dadansoddi brawddegau'. Ac er bod y pwyslais ar yr hyn sy'n dderbyniol mewn Cymraeg ysgrifenedig, byddwn i'n dweud y byddai cynnwys y llyfryn yn ddefnyddiol iawn hefyd i ddysgwyr sy'n canolbwyntio ar siarad.

Fel dysgwr rhaid i fi beidio â dweud unrhyw beth am ddefnyddioldeb y llyfryn ar gyfer Cymry Cymraeg ond, yn ôl yr awdur, dylai fod yn ddefnyddiol iawn iddyn nhw hefyd.

Oes unrhyw beth yn bod? Oes - y ffaith nad yw'r llyfryn hwn wedi bod ar gael o'r blaen i fy helpu i ddysgu'r iaith ac, yn fwy na dim, i gael gwared ar yr holl drafferth o droi tudalennau gwerslyfrau yn ôl ac ymlaen wrth chwilio am ba fath o dreiglad i'w ddefnyddio.

**S.H.Martin.**

## CORNEL Y PLANT MIS MEHEFIN



Daeth ugain o luniau i law o Ysgol Coed y Gof ac Ysgol y Wern, a chafodd y beirniad ei blesio'n arw. Cafodd ei blesio gymaint fel y penderfynodd rannu'r wobr rhwng Eifion Reynolds o Ysgol Coed y Gof a Cathryn Davies, hithau hefyd o'r un ysgol. Llongyfarchiadau i'r ddau.

# CALENDAR MUDIADAU

Eleni eto bu pwyllgorau gwahanol fudiadau Cymraeg y ddinas a'i chyffiniau wrthi'n bryaur yn ystod y misoedd diwethaf yn paratoi eu rhaglenni ar gyfer y gaeaf nesaf.

*Dan lywyddiaeth Mair Tyssul Jones bydd Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn cyfarfod ar ail nos Wener bob mis, a neilltuwyd nosweithiau ar gyfer ymweliadau Meudwen Davies,Robin Gwyndaf a Petra Bennett.

*Bydd Cymdeithas Cymrodorion Y Barri yn 77 oed eleni, ac addawodd Noel Williams, Alun Tegryn, Islwyn Jones, Rhiannon Jones, Harri Pritchard Jones, Carys a Patrick Whelan, a phlant Ysgol Gymraeg Y Barri eu cynorthwyo i gynnal tymor llwyddiannus arall.

*Mae rhestr y siaradwyr a fu'n diddori Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn ddiweddar yn drawiadol, ac mae'n siŵr mai rhai tebyg fydd yn ymweld â'u cyfarfodydd y gaeaf nesaf ar nos Lun cyntaf bob mis. Siaradwr gwadd Hydref 4 fydd Alun Treharne.

*Yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol De Powys yn Llanelwedd bydd Cwmni Theatr Yr Arad Goch yn teithio gyda'u cynhyrchiad o'r ddrama **Hyn Oll Yn Ei Chalon.** Yn theatr Capel Y Crwys y cynhelir yr unig berfformiad yng Nghaerdydd, a hynny ar nos Wener, Medi 24 am 7.30. Fel yr awgryma'r teitl, **Y Forwyn Fair** yw testun y ddrama, a cheir cyfle i rannu rhai o gyfrinachau'r wraig arbennig hon, a gyda chymorth cerddoriaeth, symud a chân, bydd yna chwerthin a chrio efallai wrth iddi rannu rhai o'i phrofiadau dwysaf.

Mae tocynnau ar werth gan aelodau Cymdeithas Ddrama'r Crwys am £3.00 (£2.00 i blant a'r henoed).

*Ar drydedd nos Wener y mis bydd Cylch Llyfryddol Caerdydd yn cyfarfod, a bydd yr aelodau yn edrych ymlaen at groesawu i'w plith Hywel Teifi Edwards a fydd yn darlithio ar **Owen Rhoscomyl a Hanes Cymru,** J Gwynfor Jones ar **John Penry a'i Bobl**, R Geraint Gruffydd ar **Saunders Lewis yr Awdur**, Eurig Davies ar **Llenyddiaeth yr Arholiadau**, ac R. Elwyn Hughes ar **Gwaddol Gwyddonol Coleg Caerfyrddin.**

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r mudiadau gwerthchweil hyn.


**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

FIMBRA

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

*BWRIEDIR RHOI I BOB YSGOL GYMRAEG YN Y SIR YN EI THRO TUA UN TUDALEN I SÔN AM WEITHGAREDDAU'R YSGOL A GOBEITHIR CYNNWYS CYFRANIADAU GAN Y PLANT. MAE YSGOL BRO EIRWG YN ARWAIN Y FFORDD YN Y RHIFYN HWN, A BYDD COED Y GOF YN DILYN Y MIS NESAF.*

# YMWELIAD Â LLANCAIACH FAWR

Un o uchafbwyntiau tymor y Gwanwyn i flynyddoedd 5 a 6 oedd ein hymweliad â Llancaiach Fawr, manordy Tuduraidd. Er mai yn ystod teyrnasiad Harri'r Wythfed (1505 - 1547) yr adeiladwyd, yn adeg y Stiwartiaid roedd pobl yn byw yno, sef y teulu Pritchard.

Mae yn lle diddorol iawn. Maen nhw yn dweud fod Siarl y Cyntaf wedi ymweld â'r manordy ar Awst 5ed, 1645. Er hynny, ymunodd y teulu Pritchard â byddin Cromwell yn ystod y Rhyfel Cartref.

Mae yna sôn bod ymwelwyr wedi gweld a chlywed pethau rhyfedd iawn o gwmpas y tŷ - menyw mewn gwisg wen, laes; sŵn traed: plant amhosibl eu gweld na chyffwrdd â nhw, a dyn yn eistedd ar sil y ffenest.

Fe gawsom ein harwain o gwmpas y manordy gan Siencyn, y gwas. Wrth gwrs, act oedd gan yr holl gymeriadau oedd yn gwisgo ac yn siared fel pobl o'r oes honno. Fe ddysgodd pawb sut i wneud 'pomanders' a chanhwyllau gwêr.

Hefyd, cafodd y bechgyn wers ar sut i foesymgrymu a'r merched sut oedd gwneud cyrtsi. Cafodd rhai o'r plant y cyfle i wisgo fel pobl o'r oes, gan gynnwys un bachgen a gafodd y fraint o wisgo arfwisg un o filwyr Cromwell.

Mwnheuodd pawb yn fawr iawn.

DAFYDD WYN ELLIS



# ARCH NOA

Pe buasech wedi dod i Ysgol Bro Eirwg tua dechrau mis Mehefin buasech wedi gweld cliw i ba sioe bydden yn perfformio ar ddiwedd ein tymor ysgol. Sioe ARCH NOA. Fe beintiwyd lluniau lliwgar o'r anifeiliaid fel cefndir i'r sioe.

Trwy hyfforddiant caled yr athrawon oedd yng nghlwm â'r perfformiad, fe ddysgwyd llawer o ganeuon a geiriau'r sgript. Roedd yn rhaid i'r actorion a'r corws weithio'n galed i ddysgu eu rhannau. Roedd yn rhaid iddynt hefyd greu eu gwisgoedd a pharatoi mygydau erbyn y sioe.

Dydd ar ôl dydd roedd pawb yn mynd yn fwy a mwy nerfus, yn gobeithio byddent yn cofio a dweud y geiriau cywir. Pan ddaeth y dyddiau mawr roedd pawb yn brysur yn gwisgo a mynd dros eu geiriau a'r caneuon.

Mi aeth yr ail berfformiad yn well na'r un cyntaf, ac fe ddaeth mwy o rieni i'r sioe ar ddydd Mawrth na'r dydd Llun. Rwy'n siŵr y gwnaeth pawb fwynhau gwneud y sioe, ac mae pawb a gymerodd ran am ddiolch i'r athrawon yn fawr iawn.

SAMANTHA McALLISTER.

# C.R.I.C.C. - CANT O BLANT YN CHWARAE RYGBI

Erbyn hyn mae cant o blant yn chwarae rygbi gyda Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd (C.R.I.C.C.).

Meddai'r ysgrifennydd, John Evans, 'Mae'n bleser mawr gennym ddweud ar goedd ein bod, yn ein trydydd tymor swyddogol, newydd gofrestru ein canfed aelod y tymor rygbi hwn.' Yn ôl pob tebyg, mae 51 o'r aelodau rhwng saith ac 11 oed a 49 o fechgyn rhwng 11 a 16 oed. Maent yn Gymry Cymraeg ac yn mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd a'r cylch sy'n cynnwys Y Bontfaen, Y Barri, Penarth, Caerffili, Pontypridd a Llantrisant.

Maent yn chwarae bob bore dydd Sadwrn ar feysydd Ysgol Glantaf Isaf am 11 o'r gloch.

Erbyn hyn hefyd mae tri o'r aelodau yn ymarfer neu yn aelodau gyda thîm cenedlaethol Cymry dan 16 oed, sef Dafydd Harries, Owen Jones a Mathew Williams.

'Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth - nawr am yr ail gant!' ychwanegodd John.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Huw Llywelyn Davies, 65 Heol Isaf, Radur. Ffôn 842122 (cadeirydd); John Evans, 10 Windsor Road, Radur. Ffôn 843275 (ysgrifennydd); Dafydd Hampson-Jones, 75 Bishops Walk. Llandaf. Ffôn 553500 (trysorydd).

# CHWARAEON YN YSGOL BRO EIRWG

Bu'r flwyddyn ysgol 1992/3 yn un brysur a llwyddiannus i dîmau ac unigolion Ysgol Bro Eirwg. Dechreuodd y flwyddyn gyda nifer o fuddugoliaethau i'r tîm pêl rwyd yng nghyngrau dwyrain Caerdydd. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd y tîm wedi ennill cystadleuthau pêl rwyd Glantaf a Llanrymni. Datblygiad newydd eleni oedd tîm pêl droed i ferched a chwaraeodd dair gêm gan ennill dwy.

Fe gafodd y tîm rygbi dymor llwyddiannus hefyd yn ennill cystadleuaeth rygbi yr Urdd yn Ne Morgannwg, cyn symud ymlaen i Barc y Strade i'r gystadleuaeth genedlaethol, lle chwaraeodd y tîm 7-bob ochr yng nghystadleuaeth Caerdydd gan gyrraedd y rownd derfynol cyn colli mewn gêm agos i Ysgol St. Albans.

Chwaraeodd tîm pêl droed yr ysgol yng nghystadleuaeth Glantaf gan ad-ennill y cwpan a enillwyd llynedd, gyda chwarae o safon uchel, a heb golli gôl.

Roedd yr ysgol yn ffodus iawn i groesawu Mr Malcolm Price o dîm Morgannwg a ddaeth i ddysgu criced am bedair wythnos ym mis Ionawr, a dangoswyd ffrwyth ei lafur pan gyrhaeddodd tîm yr ysgol rownd gyn-derfynol cystadleuaeth 'Kwik-Cricket' yng Ngerddi Soffia. Yn ogystal â llwyddiant y tîmoedd fe gafodd nifer o unigolion dymorau llwyddiannus, gyda Paul Dingle a Geraint Howden yn chwarae i dîm pêl droed Caerdydd, a Geraint Way i dîmau criced Caerdydd a De Morgannwg.

CHLOE DOWLE, JANE MEARS a GERAINT WAY

## DYSGU CYMRAEG TREIGLO NEU BEIDIO?

ATEBION

1. ddigon / dymunol
2. darlledu / ddeg
3. ddweud
4. Blant! / thân
5. nghredu
6. fachgen / gefn
7. mlynedd / brofiad
8. ddiddordeb / ardd
9. lawn / ddydd
10. cerddwch / rhedeg



Tîm Pêl Droed bechgyn Bro Eirwg

# LLENWCH Y FFURFLEN ISLAW - NAWR!

# DINESYDD 2000

## HOLI'R SÊR yng nghwmni Eiry Palfrey



ENW: JENNY OGWEN
DYDDIAD GENI: Medi 6ed 1944
AMSER GENI: 6.00am
MAN GENI: Llandybie
DYDDIAD GENI EICH CYMAR: Rhagfyr 22ain 1942 (Capricorn).
HOFF LIW: Porffor.
HOFF FLODYN?: Cennin Pedr.
SUT BYDDWCH CHI'N TREULIO'CH ORIAU HAMDDEN?: Yn chwarae golff, ac yn ymarfer yn y 'gym'.
OES GYDA CHI HOBI? BETH YWE? Mynd yn y car a gwrando ar y radio. Rwy'n teimlo bod coginio yn therapi da hefyd.
BLE A PHRYD RYCH CHI HAPUSAF? Yn heddwch y wlad, ar ben mynydd.
PA GAR SYDD GYDA CHI - A PHA LIW YW E? Citroen AX gwyn.
PA GAR HOFFECH CHI EI GAEL? Ferrari Coch.
BETH YW EICH HOFF FWYD? Bas'ned o gawl.
BLE RYCH CHI'N HOFFI MYND AM WYLIAU, A PHAM? Pentref Deya ar ynys Majorca, am y llonyddwch.
PWY YW EICH HOFF BERFFORMIWR? Gregory Peck.
PWY YW EICH HOFF AWDUR? Judith Krantz.
BETH/NEU PHWY SY'N MYND AR EICH NERFAU? Llenwi ffurflenni, a mynd i'r stafell molchi a darganfod ein bod wedi rhedeg mas o bapur ty bach.
BETH YW EICH BAI MWYAF? Bod yn ddiamynedd.
BETH YW EICH CRYFDER MWYAF? Goddefgarwch.
BETH YW EICH HOFF ANIFAIL? Cath.
PE CAWSECH CHI'R DEWIS YM MHA WLAD YR HOFFECH CHI FYW? Ynys Necker gyda Richard Branson.
BETH SY'N GWNEUD I CHI CHWERTHIN? Cwmniaeth ffraeth gyda dyrnaid o ffrindiau dethol.
BETH SY'N EICH GYRRU O'CH CO? Bod yn styc mewn tagfa draffig (yn y Ferrari).

## BARN YR ASTROLEGYDD - EIRY PALFREY

Fe anwyd Jenny o dan arwydd Virgo - y Wyryf (Awst 23ain - Medi 23ain). Arwydd daear a reolir gan Mercher planed cysylltiadau, teithio a chyfathrebu. Mae rhain yn bobl daclus, trefnus, swil braidd ac yn hoff o fod o wasanaeth i eraill. Mae cadw'n iach a heini yn bwysig iawn iddyn nhw. Gan eu bod yn arwydd daear maen nhw'n hoff o'r wlad a'r awyr iach yn debyg iawn i arwydd Taurus (arwydd lleuad Jenny). Mae pethau syml bywyd yn apelio atynt. Fe allant fod yn nerfus ar adegau, ac yn ddiamynedd iawn (!) ac yn hunan-feirniadol, gan eu bod bob amser yn anelu at berffeithrwydd. Mae pethau bach yn mynd ar eu nerfau, a mae glendid yn hollbwysig iddynt - felly fe fyddai rhedeg mas o bapur tŷ bach yn sicr o fod yn boen mawr i Virgo.

Ar yr adeg y ganwyd Jenny roedd yr arwydd Leo yn yr Esgynnydd - y Llew (sy'n perthyn yn agos i'r gath) sy'n golygu ei bod yn ymddangos ar yr wyneb fel Leo, arwydd brenhinol (sy'n adlewyrchu ei hoff liw porffor, lliw brenhinol iawn). Mae Leo'n hoffi bod yn llygad y cyhoedd, felly does dim syndod bod Jenny'n ymddangos yn rheolaidd ar y teledu; mae'n gymeriad hael ac yn oddefgar dros ben. Mae Leo'n hoffi sblout a drama (a cheir cyflym fel Ferrari - er bod y Citroen gwyn yn nodweddiadol o Virgo ymarferol).

---

# Eich cyfle chi i helpu'r Dinesydd

## TANYSGRIFIWCH £15 I DINESYDD 2000

*Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at*
**Dinesydd 2000**
**c/o Surrexit Cysylltiadau Torfol**
**Rhadbost - Freepost**
**Parc Afon, Bridge Road**
**Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ**

**Dymunaf gyfrannu'r swm isod yn flynyddol i Dinesydd 2000**

☐ £15
☐ swm arall (nodwch faint) £ ______


Enw: ______
Cyfeiriad: ______
Rhif ffôn: ______

Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐
archeb banc ☐ (llenwch isod)

**Archeb Banc**
I Fanc ccc ______
Cangen ______

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £ ______ i ddechrau ar ___/___/___ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dileëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/gennym, a debydu fy/ein cyfrif yn unol â hynny.
Cyfrif i'w ddebydu ______
Rhif y cyfrif ______
Llofnod(ion) ______
Dyddiad ______

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn Rhif 132



AR DRAWS

6. O le nobl ar chwinciad y ceir gair yn gynt. (9)
8. Rhan o wisg y droed sydd â swydd wahanol dros y Nadolig. (5)
10. "Dduw mawr! pa beth a welaf draw?
Diwedd a ----yr hollfyd." (Emyn cyfarwydd) (4)
11. Diffyg amgyffred o flaen y bwlch. Nid oes modd ei ddirnad. (10)
12. Treflan ar yr A4. Lle i gael pleser, ontefa? (12)
15. Tair eglwys, yn dwyn yr un enw yn Siroedd Gwynedd, Dyfed a Gwent, a gysegrwyd i sant a hanoedd o Gernyw. (7)
16. Fe gwyd das o'r ysgytiad a gaiff. (7)
18. Aeth ar ôl un hen go fywiog i gael y gorau ar ei duedd naturiol. (5 - 7)
20. Cofiant sy'n treiddio yn graff i weld ai bwyd amrywiol sy'n gyfrifol am yrfa'r dyn. (10)
22. Cael diferyn. (4)
23. Tyrfau yr Hwntws. (5)
24. Epistol i'r gymdogaeth? (4 - 5)

I LAWR

1. Tipyn o dderyn yw hwn. (5)
2. Benyw fach oedrannus sy'n rhoi her i Gwenan. (3,7)
3. Lle setlwyd popeth rhwng prynwr a gwerthwr gynt. (7)
4. Casglu'r gweddill ar ôl y medelwyr. (4)
5. Dwy bais meistr yn y celfyddydau sy'n agor allan yn yr act o gymryd gofal plantyn. (9)
7. Chwilio trylwyr yw chwilio fel hyn. (1,4,1,6)
9. Sigler cloch dawel gan ddatgelu'r annhiriondeb hwn. (12)
13. Dros wyneb y ddaear oll. (6,1,3)
14. Clywsom mai nid dan lestr y mae lle priodol y goleudau hyn. (9)
17. Roedd ganddo ferch a deimlai yn rhydd "i garu dau neu dri". (7)
19. Crydd sy'n agored i dderbyn hanner y te, a'i ddwrdio am hynny. (5)
21. Gwegil bonheddig. (4)

Atebion Croesair Rhif 131

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | LL | A | N | C | I | F | A | N | C | O | L | Y | N | |
| | A | | O | | S | | R | | O | | A | | E | |
| Y | N | Y | D | | B | O | TH | | D | I | B | A | I | D |
| | W | | W | | W | | | | O | | O | | N | |
| A | N | S | E | F | Y | D | L | O | G | | R | E | I | S |
| | D | | DD | | LL | | I | | | | D | | A | |
| G | A | LL | U | O | G | | B | R | A | W | Y | CH | U | S |
| | | E | | | O | | A | | N | | | W | | |
| LL | A | N | H | A | R | A | N | | O | E | D | I | A | D |
| | R | | O | | | | U | | B | | Y | | N | |
| A | G | E | N | | LL | E | S | M | E | I | R | I | O | L |
| | Y | | E | | E | | | | I | | CH | | G | |
| A | M | O | D | A | U | | T | E | TH | | A | R | A | F |
| | E | | I | | A | | Y | | I | | F | | E | |
| | LL | Y | G | E | D | Y | N | O | O | B | A | I | TH | |

CYSTADLEUAETH RHIF 132

Tocyn llyfr £5 eto. Y cynigion i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Medi 30ain, os gwelwch yn dda.

## CYSTADLEUAETH RHIF 131

Derbyniwyd un-ar-bymtheg o gynigion. Rhyw un gwall bach yr un yn meflu pump ohonynt, a'r gweddill yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd ar hap oedd A.R.Rowlands 19, Lôn Pen y Coed, Sgeti, Abertawe, a bydd y tocyn llyfr ar ei ffordd iddo gyda hyn. Y rhai cywir ond aflwyddiannus oedd:- Gunston Jones, Penylan: Mrs Gwenda Hopkins, Llanisien: Mrs Huana Simpson, Y Bontfaen: Gethin Jones, Abergwaun; Mrs Margaret Jones, Cyncoed; Mrs Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; Guto Rhys, Y Rhâth; John G. Breese, Glanyrafon; Sarah Morgan, Pontcanna; a Mair Tysul Jones, Yr Eglwys Newydd.

## LLWYDDIANNAU'R GENEDLAETHOL

Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Unawd bariton rhwng 19 a 25 - Paul Jones, Rhiwbeina (trydydd); Cerdd Goffa Saunders Lewis - Parch Glyndwr Richards, Rhiwbeina; Unawd offeryn pres dros 18 oed - Mark Hutcherson; Grŵp Dawns Stepio - Na N'og (trydydd); Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn - Elen Rhys; Prif gystadleuaeth dawsio gwerin - Nantgarw (ail); Gwobr cyfeilydd dawns - Sian Elin, Rhiwbeina; Cyflwyno gwyddoniaeth - Rhys Morris, Llandaf (cydradd gyntaf â Llyr Griffiths, Yr Wyddgrug); Cyfansoddi cân - Sian Gwyneira Williams, Dinas Powis (ail) Gwobr Aur Celfyddydau Cain - Brendan Stuart Burns (cyntaf); Iwan Bala, Treganna (ail); Cystadleuaeth myfyriwr y flwyddyn ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru sy'n dilyn cwrs celf a chreft - Johnathon Lewis (cyntaf); Côr Cymysg ar gyfer 61 neu fwy o leisiau - Caerdydd (cyntaf); Godre'r Garth (ail); Unawd telyn rhwng 12 a 15 - Deian Sion Rowlands, Caerffili; Unawd offeryn chwyth rhwng 12 a 15 - Deian Sion Rowlands, Caerffili (ail); Ysgrifennau erthygl i boblogeiddio gwyddoniaeth - Rhys Morris, Llandaf (cydradd gyntaf); Deuawd agored - Arwel ac Eleri Peleg Williams, Croes Cwrlwys.

OS OES RHYWUN WEDI CAEL EI ADAEL ALLAN, RHOWCH WYBOD FEL Y GALLWN GYNNWYS Y MANYLION YN Y RHIFYN NESAF.

# Y CAMPAU


***Rygbi yn Awstralia, Criced yng Nghymru a Lloegr, ac Athletau yn Yr Almaen - dyna ddeunydd mil neu ddwy o eiriau'n hytrach na thri chant.***

Yn Awstralia curodd De Affrig Awstralia o 19 - 12 yn Sydney ( 3 chais i ddim ) cyn colli'r ail ornest yn y gyfres yn Brisbane o 28 - 20 pan sgoriodd canolwyr Awstralia, Little a Horan, dri chais rhyngddynt. Ysywaeth, anfonodd y dyfarnwr o Sais, Ed Morrison, Small, asgellwr De Affrig a sgoriwr dau gais yn Sydney, oddi ar y cae am anghydweld â'r dyfarnu. Fe ddisgwyliwn i i Awstralia ennill y drydedd ornest yn Sydney, ond ar ôl colli o 25 - 10 yn Seland Newydd, prin mai nhw sydd ar ben y goeden bellach. Bydd Cwpan y Byd ymhen dwy flynedd a'r Crysau Duon fydd yn ennill honno unwaith eto.

Ar y meysydd Criced, siomwyd y genedl yn arw iawn wrth i Forgannwg golli'n erbyn Sussex yn Rownd gynderfynol Cwpan Nat West, a hynny ar ôl i Sussex fod yn 90 am 5 wiced ag ugain pelawd yn unig o'u trigain yn weddill. Ond y Sul wedyn yng Nghaerlyr dringasai'r Sir i ben y Cynghrair trwy ennill ei degfed ornest 50 pelawd. Swydd Gaint oedd yn ail ar y pryd, a gornest ola'r tymor fyddai rhwng y ddwy sir hyn. Tybed? Yn y Bencampwriaeth, sef gornestau tri neu bedwar diwrnod, yr oedd Morgannwg yn ail i Middlesex ond ar ei hôl hi o 39 o bwyntiau. Mae hi'n eithaf posibl mai colli'n erbyn Middlesex ddechrau Gorffennaf oedd y trobwynt - colli, cofier, wedi sgorio 562 am 3 ym matiad cynta'r ornest. Canlyniad amhosibl yn wir.

Yn Stuttgart yr oedd Pencampwriaeth y Byd yn cyrraedd ei hanterth pan ysgrifennais y geiriau hyn. Christie a enillodd 100metr y dynion i Loegr yn hawdd, ond prif wib y merched oedd yr un fwyaf cyffrous - a thorcalonnus. Gorffennodd Gail Devers (TUA) a Marlene Ottey (Jamaica) yn hollol gyfartal mewn 10.82 eiliad , ond Devers a gafodd y llawryf. Druan o Ottey - pam na chafodd y ddwy Fedal Aur?

**Thomas Davies**

**ARBED TRETH**

Mae cwmni
David J. Wright & Co.
yn ffyrm sefydledig o Gyfrifwyr Siartedig ac Archwilwyr Cofrestredig

Os hoffech wybod rhagor amdanom a lleihau eich treth, yna cysylltwch â Mr David Wright.

18, Dunraven Place, Pen-y-bont ar Ogwr
Morgannwg Ganol. CF31 1JD

Ffôn: (0656) 646444
Ffacs: (0656) 663638
Ar ôl oriau gwaith (0222) 612210


**Mi fydd yna funudau - neu eiliadau - bythgofiadwy yn cael eu cofio ar y Maes Cenedlaethol ddechrau Hydref. Ond mae'r lle cysegredig hwn wedi gweld dwsinau o funudau aruchel yn ystod ei hanes, wrth gwrs. Serch hynny, bydd yr ymrysonfa bocsio rhwng yr hen Frank Bruno annwyl a Lennox Lewis yn achlysur tipyn bach yn wahanol i'r arfer, ac yma mae MOC ROGERS yn taflu rhyw olwg dros ei wegil, fel petae, ac yn ceisio lliniaru peth ar ddicter un o gyfoedion Frank.**

## CAERDYDD YN CAEL BARGEN?

Yr wythnos o'r blaen, fe fues i'n byw am rai diwrnodau o dan yr un to â bachgen du o Wandsworth a gawsai ei fagu, medde fe, o fewn ergyd carreg i Barmouth Street ac mae pawb sy'n gwybod rhywbeth yn gwybod mai fanno y ganwyd Frank Bruno.

Yr oedd y bachgen yma yn feirniadol dros ben o Frank ar sail iddo ymadael â'i gynefin yn syth ar ôl dechrau ennill arian mawr a chredai na theilyngai ei dalent brin y fath sylw a'r fath bres.

Ceisiais liniaru rhyw gymaint ar ei ddicter, ond mewn chwinciad yr oedd fy ffrind clebrog wedi tynnu llun anferth ar y bwrdd du, llun neu ddiagram lliw siocled o en a phen Frank Bruno. Gydag afiaith a dyrnaid o dermau meddygol, fe aeth ati i esbonio pam na all Bruno ddala pelten drom. 'Gormod o fodfeddi rhwng blaen ei en a bôn ei glust' a glanhaodd y bwrdd du ag un swae fuddugoliaethus.

'A felna y bydd hi eto pan gwrddith e â Lennox Lewis' meddai, 'a Chaerdydd yn ddigon dwl i gredu eu bod nhw'n cael bargen.'

Ni ddeallai resymeg Lennox Lewis tros ddewis Caerdydd, ac ni chefais innau ddigon o gyts i'w atgoffa o'r posibilrwydd mai dychwelyd i wlad ei 'dadau' y mae e wrth ddewis cwrdd â Bruno yng Nghaerdydd. Dyw hi ddim yn amhosibl mai rhyw Gymro a brynodd gyndaid Lewis fel caethwas flynyddoedd maith yn ôl a'r caethwas fel a wneid yn aml y pryd hwnnw'n mabwysiadu cyfenw ei berchennog.

A'r un noson, dyna Gymro di-Gymraeg cysylltiedig â'r diwydiant dŵr yng Nghymru yn ymosod arnaf oherwydd i'm hacen, greda i, ei atgoffa o John Elfed Jones, cyn-Gadeirydd Dŵr Cymru. John Elfed a'i hanner miliwn o fonws oedd yn ei boeni, ac roedd hwn eto yr un mor llidus â'r bachgen du a ddilornai Frank Bruno.

'Be wnaeth y John Elfed Jones ma erioed ond cadw ei drwyn yn lân a'i feistri dylanwadol yn hapus? gofynnai bob yn ail frawddeg. Thynnodd e ddim diagram i ddadelfennu cyffredinedd y cyn-Gadeirydd, ond heblaw am hynny, roedd teimladau ac 'ymresymiadau' y ddau erlidiwr yn chwerthinllyd o debyg er bod tipyn go lew o wahaniaeth, a dweud y lleia, rhwng eu targedau.

# MYFI A'CH GWNAF YN BYSGOTWYR.....

Mae cronfeydd dŵr Llanisien a Llysfaen wedi bod yn ganolfan pysgota i ddinasyddion Caerdydd oddi ar yr ail ryfel byd. Llynedd fe benderfynodd Dŵr Cymru roi'r gorau i'r arfer o osod brithyll yn y llynnoedd hyn ac atal y gefnogaeth a roddwyd i gynnal y bysgodfa.

Yn wyneb y bygythiad o golli'r cyfleustrau gwerthfawr hyn tu mewn i ffiniau'r ddinas, fe benderfynodd Clwb Pysgota-plu Caerdydd geisio rhedeg y bysgodfa eu hunain. Ar ôl misoedd o drafod gyda Dwr Cymru fe sicrhawyd lês dros yr hawliau pysgota am dair blynedd i ddechrau mis Mawrth diwethaf.

Er mwyn sicrhau llwyddiant y fenter yr oedd eisiau codi dros ddeuddeng mil o bunnoedd i dalu'r holl gostau ac i brynu brithyll dros y tymor. Araf iawn, ar y dechrau, oedd ymateb pysgotwyr i apêl swyddogion y clwb am gefnogaeth ariannol ond penderfynwyd i fwrw ymlaen â'r ymdrech gan obeithio am dwf sylweddol yn y gefnogaeth.

Erbyn hyn mae'r bysgodfa yn llwyddiannus tu hwnt, gyda physgotwyr o bob man yn llifo i Lanisien a Llysfaen yn ddyddiol i brofi o'r pysgota bendigedig sydd ar gael yno. Yn sicr, mewn byr amser, y mae'r dyfroedd hyn wedi eu sefydlu ym mhlith y pysgodfeydd gorau yn Ne Cymru.

Mae prisiau y bysgodfa yn rhesymol iawn o'u cymharu â physgodfeydd masnachol yn yr ardal sef £10 y dydd (£5 ar ôl pedwar y prynhawn), neu docyn tymor am £210 neu £300. Mae pob trwydded yn gyfyngedig i bedwar pysgodyn y dydd, a'r tocyn hwyr yn gyfyngedig i ddau bysgodyn.

Ychydig iawn o drwyddedau tymor sydd ar ôl gan fod y cyfarwyddwr wedi cyfyngu'r nifer i gant er mwyn sichrau pysgota hwylus a hamddenol i bawb. Yn anffodus, dim ond ychydig o Gymry Cymraeg Caerdydd sy'n cefnogi'r fenter hon. Byddai'n dda gweld y nifer yn cynyddu, ac os ydych chi wedi darllen mor bell â hyn, beth amdani? Os am ragor o fanylion, cysylltwch â LESLIE THOMAS ar Caerdydd 611350.

## DYFAL DONC A DYRR Y GARREG

Mae trigolion Bro Morgannwg wedi derbyn llyfryn gan eu cyngor lleol yr wythnos hon, sef 'Ein Gweledigaeth'. Er syndod mawr, mae e'n gwbl ddwyieithog ac wedi ei ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg graenus.

Pob clod i Gyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg am roi ei phriod le i iaith Iolo Morgannwg a Thomas William, Bethesda'r Fro. Clywyd si bod trigolion dwyieithog wedi eu cynddeiriogi gymaint gan y ffurflenni trethi uniaith nes iddynt ysgrifennu yn eu niferoedd i gwyno. Yn ôl pob tebyg, fe gostiodd cyfieithu'r llythyron a'u hateb yn ddrud i Gyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg. Gwir y dywediad 'Dyfal donc a dyrr y garreg'.

**AGORED I BAWB!**

# EISTEDDFOD Y GLOWYR

PAFILIWN Y "GRAND"
PORTHCAWL

Dydd Sadwrn, Hydref 2, 1993

*Yn dechrau am 10.00 o'r gloch*

Mynediad: £3.00 (£2.00 gostyngiadau)

**DEWCH I GEFNOGI A MWYNHAU YR ACHLYSUR UNIGRYW HWN!**

Trefnwyd gan yr Adran Gwasanaethau Hamdden Cyngor Bwrdeistref Ogwr, mewn cydweithrediad ag Undeb Cenedlaethol y Glowyr (Ardal De Cymru) gyda chefnogaeth barhaol ac hanfodol "C.I.S.W.O."

# RHIANNEDD CWM RHYMNI

Ydych chi'n joio canu ac yn hoffi cymdeithasu?

Os felly beth am ymuno â Rhiannedd Cwm Rhymni am hwyl ar gân?

**Cysylltwch â:**
**Sian (0222) 889295 Rhian (0495) 226051**
**neu**
**Gaynor (0443) 814079**



# Gŵyl Fihangel

yn

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Sadwrn a Sul 25 a 26 Medi

10.00am - 5.00pm

Dowch i fwynhau:
Aredig (os yn sych): Dyrnu;
Trin cŵn defaid: Gwneud Cesig Medi;
llu o grefftau eraill; Adloniant a gweithdai i blant; Dawnsio gwerin; Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Penrhiw
(3pm bnawn Sul)

**Am wybodaeth bellach ffonier Caerdydd (0222) 569441**

**chapter**

stryd y farchnad treganna caerdydd cf5 1qe

**Theatr Powys : Coch du Anwybodus**
**Maw 14 - Mer 15 Medi 8.00pm**
Theatr grymus i ysbrydoli a chodi ofn ar ddinasyddion yr oes niwcliar. Gan Edward Bond.

**Brith Gof : D.O.A.**
**Gwe 8 - Sad 9 Hyd 8.00pm**
Brith Gof yn cyfwyno D.O.A. fel rhagflas o brosiect Arturius Rex. Tri dyn ofnus mewn sefyllfa frawchus: oriau olaf Arthur yn y Capel Du.

**Theatr Bara Caws : Diwedd y Bydd**
**Maw 19 - Mer 20 Hyd 8.00pm**
Drama newydd sbon gan Meical Povey. Gyda Catherine Aran, Sian James, Maldwyn John a Merfyn Jones.

**Swyddfa Docynnau (0222) 399666**

Welsh National **OPERA** Cenedlaethol Cymru

*"UN O'R ENSEMBLES OPERATIG GORAU YN EWROP"*
*NEW YORK TIMES*

**THEATR NEWYDD · CAERDYDD 0222-394844**

## LUCIA DI LAMMERMOOR
**17, 22, 25 MEDI, 19 TACHWEDD**
Donizetti *Cenir yn Eidaleg* · Cynhyrchiad Newydd · Gyda Janice Watson
GYDA CHYMORTH PETER MOORES FOUNDATION

## CINDERELLA
**20 TACHWEDD, 13, 15, 17 RHAGFYR**
Massenet *Cenir yn Saesneg* · Cynhyrchiad Newydd · Gyda Rebecca Evans
GYDA CHYMORTH THE VIVIEN DUFFIELD FOUNDATION

## FALSTAFF
**11, 16, 24 MEDI, 13 TACHWEDD**
Verdi *Cenir yn Eidaleg* · Gyda Bryn Terfel fel Ford *(yn ystod perfformiadau mis Medi)*
NODDWYD Y CYNHYRCHIAD GWREIDDIOL GAN FANC NATIONAL WESTMINSTER

## EUGENE ONEGIN
**23 MEDI**
Tchaikovsky *Cenir yn Saesneg* · Gyda Alwyn Mellor
NODDWYD GAN FRIENDS OF WNO

**CYLCH OPERA BP TAITH DRWY GYMRU**

## CINDERELLA
BP
gan Rossini · Un o bedwar cynhyrchiad Opera Cenedlaethol Cymru ar thema Elen Ludw
**THEATR SHERMAN · 5, 6 TACHWEDD · (0222) 230451**
*ac ar daith*

*CYNLLUN ELEN LUDW · OPERA I BOBL IFANC*

## CINDERELLA
gan Peter Maxwell Davies yn cael ei gyflwyno yn Ne a Gogledd Cymru gan Adran Cymuned ac Addysg Opera Cenedlaethol Cymru.
Am manylion ffoniwch Berwyn Davies ar 0222 464666

*Ymuno â'r rhestr bostio drwy gysylltwch ag Adran Farchnata Opera Cenedlaethol Cymru, John Street, Caerdydd CF1 4SP. Ffôn 0222 464666*

# Gŵyl Caerdydd '93
CERDD




*Ymysg yr uchafbwyntiau*

**Llun 20 Medi 7.30pm**
**DENNIS O'NEILL**
**TRIBUTE TO CARUSO**

**Mercher 22/Iau 23 Medi 8.00pm**
**MOVING BEING:**
**THE DARWIN PROJECT**

**Gwener 8 Hydref 1.05pm**
**ELINOR BENNETT** *telyn*

**Sadwrn 9 Hydref 7.30pm**
**REVOLT IN THE VALLEYS**
gan Mervyn Burtch

**ynghyd â dau gyngerdd gan**
**GERDDORFA SYMFFONI Y BOLSHOI**
**Iau 30 Medi/Llun 4 Hydref**

Pris tocynnau ar gyfer yr Ŵyl o £3.50 i fyny

Am fanylion llawn a rhaglen liwgar cysyllter â Swyddfa Gyhoeddusrwydd Neuadd Dewi Sant ar (0222) 342611, est 232

**St David's Hall**
**Neuadd Dewi Sant**
SWYDDFA DOCYNNAU (0222) 371236/235900

# SWALEC

Yn noddi cyfres o raglenni newydd ar S4C ar gyfer pobl sydd am ddysgu Cymraeg.


Cynllunwyd ac argraffwyd gan Colin Watkins, 99 Maesycoed Road, Mynydd Bychan, Caerdydd CF4 4HE. Ffôn (0222) 624533 / 0831 362400